**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**
**RHONDDA CYNON TAF**

**IS-BWYLLGOR Y CABINET AR FATERION Y GYMRAEG**

Cofnodion o gyfarfod y Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion y Gymraeg a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 25 Hydref 2022 am 10.00 am ym Rhithwir.

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion y Gymraeg Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd R Lewis (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M Webber Y Cynghorydd G Caple

## Swyddogion oedd yn bresennol

Ms L Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Mr S Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg
Ms L Sheppard-Thomas, Gwasanaethau Cymraeg
Mr S Thomas - Swyddog Prosiect Yr Eisteddfod
Mr O Rowlands – Menter Iaith

### 1 Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r Swyddogion i gyfarfod Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion y Gymraeg. Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb i law oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol C. Leyshon ac M. Norris.

### 2 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

### 3 Cofnodion

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2021 yn rhai cywir.

**4 Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022 i 2027**

Darparodd Rheolwr y Gwasanaeth – Gwasanaethau Cymraeg gopi diwygiedig o Strategaeth Hybu'r Gymraeg i Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion y Gymraeg fel sy'n ofynnol o dan Safon 145 o'r Hysbysiad Cydymffurfio a gafodd ei gyflwyno i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Yna cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Ms N. Davies, ymgynghorydd arbenigol o'r grŵp cynllunio iaith Nico Cyf, a gafodd ei gomisiynu i helpu i lunio'r strategaeth bum mlynedd uchelgeisiol. Yn rhan o'r strategaeth, ymgynghorwyd â thrigolion ym mis Hydref 2021. Mae modd darllen canlyniadau'r ymgynghoriad yn Atodiad 2 yr adroddiad.

Dywedodd yr ymgynghorydd fod adolygiad y strategaeth gyntaf yn darparu pedwar prif faes i'w hystyried wrth ddrafftio'r strategaeth newydd, sef:

1. Ymateb i ddata'r Cyfrifiad ynghylch y Gymraeg yn yr ardal (mae disgwyl i'r data fod ar gael ym mis Rhagfyr 2022 a byddai'n sail i gynllun gweithredu)
2. Yr amgylchiadau, sy'n newid yn barhaus
3. Pwysigrwydd partneriaethau
4. Pwysigrwydd mesur llwyddiant ac effaith y strategaeth ar drigolion

Esboniodd yr ymgynghorydd gyd-destun y strategaeth newydd i'r Aelodau, a oedd yn cynnwys ystyried yr amgylchedd gwleidyddol ac effeithiau'r pandemig. Yna, cafodd yr Aelodau wybod am y tair thema genedlaethol allweddol yn y strategaeth newydd, sef:

1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
2. Cynyddu defnydd y Gymraeg
3. Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Cafodd ei egluro bod yna gyfleoedd yn y strategaeth i gryfhau a hybu'r Gymraeg trwy achlysuron megis yr Eisteddfod, y celfyddydau, chwaraeon a thrwy gynnal arolygon gyda thrigolion.

Rhoddodd y Cadeirydd ei ddiolch i'r ddau swyddog am y cyflwyniad llawn gwybodaeth, gan nodi bod y gwaith dan sylw yn cwmpasu'r Cyngor cyfan. Talodd deyrnged i Garfan Ymgynghori'r Cyngor am sicrhau bod aelodau'r cyhoedd, busnesau, sefydliadau partner a'r trydydd sector yn cymryd rhan.

Roedd y Cadeirydd yn falch o nodi bod llawer o arferion da wedi deillio o'r strategaeth gyntaf. Dywedodd y byddai'r strategaeth newydd yn caniatáu i'r awdurdod lleol ddatblygu ac addasu i'r amgylchiadau presennol i sicrhau bod RhCT yn lle sy'n annog pobl i ddysgu Cymraeg a datblygu'r iaith, boed hynny gartref neu drwy ddulliau addysgol neu adloniadol.

Roedd y Cadeirydd o'r farn bod yr awdurdod lleol yn uchelgeisiol o ran ei dargedau i'r Gymraeg, gan gyfeirio at y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sy'n gobeithio cynyddu nifer y dysgwyr blwyddyn un 10% dros y deng mlynedd nesaf. Soniodd y Cadeirydd hefyd am raglen gyfalaf sylweddol y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf a'r buddsoddiad mewn nifer o adeiladau newydd ar gyfer ysgolion Cymraeg i apelio at fwy o rieni a dysgwyr.

Manteisiodd y Dirprwy Arweinydd ar y cyfle i ganmol yr ysgol newydd o'r radd

flaenaf sy’n cael ei hadeiladu yn Rhydyfelin ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Ategodd y Dirprwy Arweinydd sylwadau'r Cadeirydd ynglŷn â'r targedau uchelgeisiol a osodwyd gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru ond roedd yn obeithiol y byddai'r meysydd sydd wedi'u nodi yn y strategaeth yn helpu'r Cyngor i gyflawni rhywfaint tuag ati.

Gan gyfeirio at yr anfanteision economaidd-gymdeithasol a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, a geir yn Atodiad 3 yr adroddiad, dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod lefelau uchel o sgiliau llythrennedd gwael gan oedolion mewn llawer o gymunedau, gan bwysleisio pwysigrwydd cynwysoldeb wrth hyrwyddo’r Gymraeg. Cytunodd y Dirprwy Arweinydd fod ymgynghori yn hanfodol, gan siarad am bwysigrwydd gwrando ar gymunedau wrth i gynnydd fynd rhagddo.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gadarnhaol am y strategaeth hybu uchelgeisiol, gan bwysleisio bod manteision cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i wlad ddwyieithog neu amlieithog. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet mai’r ffordd orau o ennyn diddordeb pobl ifainc fyddai ar y cam cynharaf posibl yn eu haddysg.

Wrth ymateb i’r Aelod o'r Cabinet, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant fod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a’r cwricwlwm newydd i Gymru yn canolbwyntio ar hybu’r iaith, nid yn unig mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ond mewn ysgolion cyfrwng Saesneg hefyd. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y cwricwlwm newydd i Gymru yn rhoi blaenoriaeth i hybu'r iaith o oedran ifanc iawn, a bod Estyn yn arolygu'r ysgolion cyfrwng Saesneg ar y sail honno hefyd. Gan gyfeirio at y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod am y saith deilliant allweddol. Eglurodd mai'r nod oedd canolbwyntio ar gynyddu nifer y dysgwyr sy’n siarad Cymraeg ym mlwyddyn un, ond roedd hefyd yn cynnwys mesurau eraill megis defnydd iaith mewn cyd-destun anffurfiol, y gweithlu addysg, ac unrhyw bwysau ar gapasiti sy'n bodoli.

Siaradodd Prif Weithredwr Menter Iaith yn gadarnhaol am y berthynas â'r Cyngor, gan sôn am achlysuron sydd ar ddod megis Parti Ponty ac, wrth gwrs, yr Eisteddfod. Eglurodd fod timau’n cydweithio i gyflwyno targedau i Lywodraeth Cymru. Yn dilyn yr achlysuron, y nod fyddai cadw’r momentwm i fynd a dysgu o’r profiad.

Aeth Prif Weithredwr Menter Iaith ymlaen i sôn am lwyddiant y Siarter Iaith, a oedd wedi helpu dysgwyr ail iaith. Rhoddodd wybod fod ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg wedi cymryd rhan ym Mharti Ponty, a oedd yn cyfleu’r neges y gall yr holl gymuned ddathlu’r Gymraeg. Cyfeiriodd hefyd at Gymdeithas Bêl-droed Cymru, ac roedd Menter Iaith yn falch o fod wedi sicrhau cyllid i gynnal prosiectau ar y cyd â nhw a Llywodraeth Cymru i hybu'r iaith. Rhoddodd Menter Iaith ddiolch i'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant am godi ymwybyddiaeth yn yr ysgolion i sicrhau bod pob dysgwr yn cael yr un cyfleoedd.

Ategodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant sylwadau Menter Iaith mewn perthynas â gwaith partneriaeth a pha mor sylfaenol yw hi i gyflawni targedau mor uchelgeisiol. Soniodd y Cyfarwyddwr yn gadarnhaol am y berthynas gryfach fyth â Menter Iaith a'r berthynas gref â phartneriaid eraill megis colegau, gweithwyr iechyd proffesiynol a staff yn y sector cyfrwng Saesneg yn ogystal â'r rhai yn y sector Cymraeg.

Rhoddodd y Cadeirydd ei ddiolch i'r swyddogion am yr adroddiad cynhwysfawr, gan atgoffa'r Aelodau y byddai'r Is-bwyllgor yn adolygu cynllun gweithredu mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**PENDERFYNODD** Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad yma a'r strategaeth gysylltiedig
2. Cymeradwyo Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022 i 2027

**Daeth y cyfarfod i ben am 10.45 am**

**Y Cynghorydd R Lewis**
**Cadeirydd.**